


# Meddyliwch amdanom yn eich Ewyllys

*Gadewch rodd o ddiolch am byth i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro*

Cardiff & Vale HealthCharity Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro Cardiff and Vale University Health Board

Supported by Gifts in Wills
Cefnogir gan Rhodd mewn Ewyllys

Diolch i chi am gymryd yr amser i ystyried cefnogi Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro drwy adael rhodd yn eich Ewyllys.

Bob blwyddyn, mae arian a dderbynnir o roddion mewn Ewyllys yn cefnogi ymchwil a datblygiad, gwelliannau i wasanaethau ac amgylcheddau cleifion a phrosiectau lles staff, sy'n helpu i wneud gwahaniaeth sylweddol i gleifion a staff.

## Beth yw Rhodd mewn Ewyllys?

Gwaddol yw unrhyw rodd (ariannol neu asedau) a adawyd yn Ewyllys person; cyfarwyddyd i ran o’ch ystâd gael ei rhoi i unigolyn neu sefydliad ar ôl eich marwolaeth.

Mae gadael rhodd yn eich Ewyllys, boed yn ganran o’ch ystâd, yn gyfandaliad, yn gyfranddaliadau neu’n eitem werthfawr, yn ffordd hael o helpu i wneud gwahaniaeth i ofal cleifion

Ar ôl darparu ar gyfer anwyliaid, hoffem ofyn i chi ystyried gadael rhodd yn eich Ewyllys. Gyda'n gilydd gallwn greu etifeddiaeth barhaus

## Mathau o Roddion

### Rhodd Weddilliol

Dyma beth sydd ar ôl o’ch ystâd pan fydd dyledion, trethi a rhoddion eraill wedi’u talu.

### Rhodd Ariannol

Rhodd o swm penodol o arian yw hwn.

### Rhodd Benodol

Mae hwn yn eitem neu gasgliad arbennig o eitemau, e.e. darn o waith celf.











## *Byw'n Dda, Gofalu'n Dda, Gweithio Gyda'n Gilydd*

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn un o'r sefydliadau GIG mwyaf yn Ewrop. Mae'n cefnogi cymunedau lleol Caerdydd a Bro Morgannwg gydag ystod eang o wasanaethau iechyd a lles gan gynnwys: gwasanaethau sylfaenol a chymunedol; gwasanaethau acíwt a ddarperir yn Ysbyty Athrofaol Cymru ac Ysbyty Athrofaol Llandochau, ynghyd ag Ysbyty Arch Noa i Blant Cymru; canolfannau iechyd cyhoeddus a thrydyddol.

Cenhadaeth y Bwrdd Iechyd yw "Byw'n Dda, Gofalu'n Dda, Gweithio Gyda'n Gilydd", a'i weledigaeth yw y dylai gallu person i fyw bywyd iach fod yr un fath ble bynnag y mae'n byw a phwy bynnag ydyw.

## Hanes Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro

Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro yw elusen swyddogol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Wedi'i sefydlu ym 1996, mae'r Elusen Iechyd yn tarddu o gasgliad o arian a godwyd gan dimau clinigol a rhoddion cyhoeddus hael, ac mae wedi datblygu i fod yn Elusen boblogaidd, sydd wedi ennill gwobrau, gyda'i hunaniaeth a'i huchelgeisiau ei hun.

Mae'r Elusen yn gweithio ochr yn ochr â'r Bwrdd Iechyd, gan reoli'r gwaith o weinyddu dros 300 o gronfeydd elusennol o ddydd i ddydd; cefnogi ymchwil, triniaeth, gofal cleifion, offer, prosiectau a gweithgareddau, i wella'r gwasanaethau a ddarperir gan gronfeydd y GIG.



## Pam gadael rhodd yn fy Ewyllys i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Mae'r GIG ar gael ar alw i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd i Gaerdydd gyfan a Bro Morgannwg ac mae'n derbyn ei gyllideb gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r Elusen Iechyd yn cefnogi'r Bwrdd Iechyd drwy helpu i godi arian ychwanegol, a derbyn a rheoli rhoddion. Mae'n gweithio mewn partneriaeth â deiliaid cronfeydd mewn meysydd clinigol ac adrannau eraill i flaenoriaethu'r defnydd o gronfeydd elusennol.

Ni waeth pa mor fawr neu fach, gall eich rhodd mewn Ewyllys wneud gwahaniaeth sylweddol i gleifion a staff. Ar ôl i chi ofalu am y bobl sydd agosaf atoch chi, gallai gwneud cyfraniad yn eich Ewyllys helpu mewn cymaint o ffyrdd. Dyma rai enghreifftiau:



Ariannu gweithgareddau cleifion a sesiynau lles



Cefnogi'r astudiaethau ymchwil a datblygu





Gwelliannau i amgylcheddau cleifion a staff



## Beth fydd yn digwydd i'm harian os byddaf yn gadael rhodd yn fy Ewyllys i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro?

Pan fyddwch yn gadael rhodd yn eich Ewyllys, gallwch ddewis gwneud rhodd gyffredinol i'r Bwrdd Iechyd fel y gall staff clinigol benderfynu lle mae ei angen fwyaf; neu gefnogi gwasanaeth neu adran y mae gennych chi a'ch anwyliaid brofiad personol ohono.

Nid oes angen unrhyw ymrwymiad ariannol ar unwaith i gynnwys rhodd yn eich Ewyllys, fodd bynnag bydd eich rhodd garedig a hael yn rhan o'ch gwaddol i helpu eraill yn y dyfodol.

## Y camau nesaf i adael rhodd yn eich Ewyllys i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Siaradwch â ni am eich dymuniadau drwy ffonio **029 218 36042**

E-bostiwch ni yn fundraising.cav@wales.nhs.uk

Ewch i'n gwefan: www.healthcharity.wales

@HealthCharity

@cardiffandvalehealthcharity

@HealthCharity

Diolch am ystyried cefnogi gwasanaethau gofal iechyd ar draws Caerdydd a Bro Morgannwg drwy adael rhodd yn eich Ewyllys. Bydd eich rhodd yn galluogi'r Elusen Iechyd i barhau â'r gwaith pwysig y mae'n ei wneud i helpu a chefnogi cleifion, staff, gwirfoddolwyr ac ymwelwyr, am genedlaethau i ddod.

Bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yno i chi a'ch anwyliaid, pryd bynnag y byddwch ein hangen ac ar gyfer pob cam o fywyd. Diolch am eich cefnogaeth hael.





Rhif cofrestru 1056544

## Gadael rhodd

Byddem yn ddiolchgar pe baech yn ateb y cwestiynau canlynol fel y gallwn gyfathrebu'n well â chi yn y dyfodol. Nid oes unrhyw rwymedigaeth i ateb y cwestiynau hyn ac rydym yn deall wrth i amgylchiadau newid y gall eich atebion newid hefyd. Mae unrhyw wybodaeth y byddwch yn dewis ei rhannu yn gwbl gyfrinachol ac nid yw'n gyfreithiol rwymol mewn unrhyw ffordd.

### Ydych chi wedi ystyried gadael rhodd yn eich Ewyllys i Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro?

☐ Rwyf eisoes wedi cofio Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro yn fy Ewyllys

☐ Rwy'n bwriadu cofio Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro yn fy Ewyllys yn y dyfodol

☐ Mae gennyf ddiddordeb mewn darganfod mwy, cysylltwch â mi

### Os ydych yn gadael rhodd yn eich Ewyllys, a hoffech chi ddweud mwy wrthym am hyn?

______________________________

______________________________

______________________________

______________________________

______________________________

______________________________

______________________________

## Eich manylion

Teitl ____________ Enw Cyntaf ______________________

Cyfenw ______________________________

Cyfeiriad ______________________________

______________________________

______________________________ Cod post ____________

Rhif ffôn ______________________________

Rhif ffôn symudol ______________________________

E-bost ______________________________

### Dychwelwch y ffurflen hon i:

Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro, Tŷ Coetir, Ffordd Maes y Coed, Caerdydd, CF14 4HH

Bydd unrhyw wybodaeth a rannwch yn cael ei thrin yn gyfrinachol a'i defnyddio i gydnabod eich cefnogaeth a'n helpu i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Byddwn ond yn defnyddio eich rhif ffôn a'ch cyfeiriad e-bost i gysylltu â chi ynglŷn â'n hymgyrch Rhodd mewn Ewyllys, oni bai eich bod yn ticio'r blwch isod.

☐ Ticiwch yma os hoffech gael rhagor o wybodaeth am gefnogi gwaith Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro

### Ein polisi diogelu data

Rydym yn parchu eich hawl i breifatrwydd ac rydym yn cadw eich data mor ddiogel â phosibl. Lle mae gennym fuddiant cyfreithlon, efallai y byddwn yn defnyddio'ch data i greu proffil o'ch diddordebau a'ch dewisiadau, ac i ddadansoddi eich gallu i ddarparu cymorth ariannol, fel bod ein cyfathrebiadau â chi (gan gynnwys ein cyfathrebiadau marchnata a chodi arian) mor briodol a chosteffeithiol â phosibl.



Rhif cofrestru 1056544